Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl368

**Amseru: Unigol**

**Teitl:** Cyllid ar gyfer gwerthusiad allanol y Rhithuned Ymateb i Gam-drin Domestig (DAVRU)

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:**

**Crynodeb Gweithredol:**
Gwneir cais am gyllid i gefnogi gwerthusiad academaidd o'r Rhithuned Ymateb i Gam-drin Domestig (DAVRU), sydd nawr wedi ei gweithredu ar draws Dyfed Powys. Cyflawnir y gwerthusiad hwn gan dîm ymchwil ym Mhrifysgol Bangor, a bydd yn canolbwyntio ar brofiad dioddefwyr o'r gwasanaeth, gan gynnwys mynediad mewn ardaloedd gwledig ac ar gyfer dioddefwyr sy'n siarad Cymraeg. Y bwriad yn gyffredinol yw gwella'r modd y cyflenwir y gwasanaeth a deall yn well effaith (cadarnhaol neu negyddol) defnyddio'r Rhithuned Ymateb i Gam-drin Domestig ar ddioddefwyr.

Mae'r gwerthusiad yn unol â blaenoriaethau'r CHTh o gefnogi dioddefwyr, atal niwed, a chefnogi system gyfiawnder mwy effeithiol. Y mae hefyd yn cynrychioli cydweithrediad gyda Phrifysgol Bangor i ddeall manteision ac anfanteision ymateb heddlu drwy gyfrwng technoleg i gam-drin domestig, gan ganolbwyntio'n benodol ar wledigrwydd.

Darperir y cyllid o Gronfa Arloesedd y CHTh, a grëwyd i gefnogi prosiectau a chynlluniau peilot heb eu harchwilio'n flaenorol yn Nyfed Powys, ac nad ydynt angen ymrwymiad cyllid i'r dyfodol gan y CHTh.

**Argymhelliad:**
Darparu cyllid o £15,000 o'r Gronfa Arloesedd i hwyluso'r gwerthusiad.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 6 Mai 2025